# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrth 10/11/2020 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Caren Jones | Rhys Tudur |
| Sharon Williams | Rhys Llewelyn | Janice Evans | Alaw Llewelyn Roberts | Carys Roberts |
| Pat Humphreys (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Guto Williams, Gwynfor Jones, Cai Rees Jones, Mared Llywelyn Williams, Lleucu Jones

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau cynllunio – C20/0779/42/DT & C20/0898/42DT

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 13/10/2020 & 26/10/2020
   Penderfyniad: derbyn yn gywir
   Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Rhys Tudur

4. **Unrhyw Fater Brys**

- **Cynnig - Tai Marchnad Leol –** Rhys Tudur
  Cynnig yw hwn sydd yn galw ar y Cyngor Sir i ail ystyried eu polisi 'Tai Marchnad Leol' fel bo'r polisi yn weithredol ym Morfa Nefyn, Nefyn ac Edern. Mae rhai cymunedau yn Llyn yn gymwys iddo'n barod megis Mynytho, Llanengan, Llanbedrog, Morfa Bychan a Borth y Gest felly pam ddim cynnwys ardaloedd Cyngor Tref Nefyn, a beth mae'n olygu ydyw fod unrhyw dy sy'n cael ei godi o'r newydd yn gorfod bod ar gyfer rhywun lleol.
  Penderfyniad: Pasiwyd y cynnig gyda'r awgrym i gynnwys ffeithiau am y sefyllfa bresennol a'r canran o ail gartrefi sydd yn ein cymunedau.
  Cynnig: Sharon Williams Eilio: Rhys Llewelyn
- **Cynnig – Cyfarfod i drafod argyfwng ail gartrefi –** Rhys Tudur
  Cynnig yw hwn yn galw am gyfarfod rhwng cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Cymuned, Cyngor Gwynedd a chymdeithasau tai megis Adra, Grwp Cynefin, Cymdeithas Tai Gwynedd a Tai Teg er mwyn trafod sut y gellir perchnogi mwy o dai sydd yn y stoc dai bresennol ar gyfer pobol leol.
  Penderfyniad: Pasiwyd y cynnig gyda gwelliant i siarad gyda arbennigwr cyn trefnu cyfarfod.
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Rhys Llewelyn
- **Grantiau newydd ar gyfer Canol Trefi –** Gruffydd Williams
  Mae grantiau newydd ar gael ar gyfer gwelliannau bychan o fewn trefi ac mae'r aelod lleol wedi cynnig ein bod yn trio amdano yn Nefyn gyda'r bwriad i dacluso tu allan i Garej Trenholme, cael meinciau wrth ymyl y Gof Golofn a cael potiau blodau mwy.
  Penderfyniad: Y clerc i gysylltu gyda'r Swyddog Cefnogi Cymunedau i weld beth yw'r cam nesaf.
  Cynnig: Caren Jones Eilio: Arfon Hughes

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

- **Cyllideb 2021-2022 –** Arfon Hughes & Clerc

  Aethpwyd drwy'r ddrafft gyntaf o'r gyllideb ar gyfer 2021-2022 a'r unig bwyntiau a godwyd oedd:
  1. Beth sy'n digwydd gyda arian Y Clwb Ieuenctid gan nad ydynt yn cael cyfarfod yn bresennol ond maent yn cynnal prosiectau o bell ar y we
  2. Mae angen edrych i fewn i arian sydd wedi ei neilltuo i'r llyfrgell
  3. Cafwyd cais i wneud mwy o ddefnydd o'r Llyfrgell ac i gynnal cyfarfodydd CTN yno ac felly yn arbed talu rent Siop Siarad
  4. Cafwyd cais hefyd i greu swydd i wneud gwaith CTN yn lle talu'r gwahanol ymgymerwyr.

  Penderfyniad: Agenda mis Rhagfyr er mwyn edrych i mewn i'r pwyntiau uchod.
  Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Sharon Williams

5. **Llwybr Lleiniau –** Carys Roberts

   Mae rhan o'r llwybr yma wedi disgyn ac wedi gor-dyfu yn enwedig o gwmpas y meinciau sydd arno wrth ymyl Rhodfa'r Mor, hefyd mae perchnogion y tai haf ac eraill ar Rhodfa'r Mor yn hel pobol ifanc oddi ar y meinciau gan mai nhw sydd yn berchen y tir. Mae'r aelod lleol wedi gofyn i Cliff dorri'r llwybr ac wedi cysylltu gyda Dewi Wyn Owen ynglyn a fo gyda'r gobaith y bydd gwelliannau yn cael ei wneud iddo.
   Penderfyniad: Arfon i fynd yna i dynnu llyniau i weld os yw'r gwaith wedi cael ei wneud.

6. **Mynwent Morfa Nefyn –** Clerc

   Cafwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i gael estyniad i fynwent Morfa Nefyn gan nad oes dim llawer o le ar ôl yna i gladdu. Cafwyd diweddariad gan Gruffydd Williams fod llwybr cyhoeddus i fod wedi cael ei greu pan adeiladwyd tai newydd Tai Eryri flynyddoedd yn ôl fel llwybr saff i'r ysgol, ond nid yw hyn wedi cael ei wneud oherwydd fod y tir yn wlyb iawn.
   Penderfyniad: Yr aelod lleol i edrych i fewn i sefyllfa'r llwybr saff ac yna diweddaru'r clerc. Y clerc wedyn i gysylltu gyda'r tir feddiannwr ac adrodd nôl i bwyllgor mis Rhagfyr.

7. **Coed Nadolig –** Catrin Roberts

   Cafwyd diweddariad gan y clerc:
   Mae coeden Edern wedi cael ei archebu gan Tu Mewn ac mae Cliff Hughes am roi y golau arni.
   Mae coeden Nefyn wedi cael ei archebu gan y clerc ar ran Ashley Hughes ac Elfed Roberts.
   Mae coeden Morfa Nefyn wedi cael ei archebu gan Siop a Garej Morfa.
   Mae angen sicrhau fod rhywun yn gosod y golau ar coed Nefyn a Morfa Nefyn a gofynwyd i'r clerc ofyn i Bleddyn Evans.
   Mae Chris Jones am nôl y coed ar y 20/11/2020 a'u gosod ar y 23/11/2020.
   Oherwydd rheolau covid mai dim ond 30 a gaiff ymgynull yn yr awyr agored penderfynwyd peidio cynnal gwasanaeth goleu'r coed eleni.

8. **Ceisiadau Cynllunio**
   - **C20/0845/42/DT –** Tai'r Lôn, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8YU – Dymchwel gweithdy, modurdy a lolfa haul bresennol a chodi adeilad newydd i gynnwys lolfa haul, ystafell fwyta ac ystafell wely llawr cyntaf gyda ystafell ymolchi - ymateb wedi cael ei anfon i'r Adran Gynllunio gan fod y 21 diwrnod wedi dod i ben – Gwrthod – Gor-ddatblygiad.


Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

- **C20/0779/42/DT –** Hafod Wen, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6EL – Estyniad i'r modurdy – Gwrthod – Gor-ddatblygiad o'r safle ac ymwthiol mewn cefn gwlad agored.

**Ceisiadau Diweddarach**

- **C20/0898/42/DT -** Ty Pen, Lôn Las, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6BG – Estyniadau a newidiadau i dy presennol - Gwrthod – Gor-ddatblygiad o'r safle ac ymwthiol mewn cefn gwlad agored.
- **C20/0914/42/LL -** Y Stad Borthwen, Lôn Rhos, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8YN – Cais llawn i godi ty newydd 3 ystafell wely gyda modurdy ynghlwm – Dim gwrthwynebiad.

**9. Gohebiaeth a dderbyniwyd:**

- **Cyngor Ysgol Edern**
  Cais yw hwn am gyfraniad tuag at brynu polyn a fflag Cymru i roi ar dir yr ysgol.
  Penderfyniad: Pasiwyd i brynu polyn a fflag.
  Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Rhys Llewelyn
- **Tafarn yr Heliwr**
  Cais yw hwn am gael defnyddio rhandiroedd y ddôl ar gyfer prosiect cymunedol a gweithio ar y cyd gyda Ysgol Nefyn, Yr Eglwys a'r Clwb Ieuenctid.
  Penderfyniad: Rhoi rhan o Rhandiroedd y Ddôl iddynt ar gyfer y prosiect ond bod rhaid pwysleisio ei fod yn dir gwlyb iawn ac mae CTN wedi ceisio datrys y broblem yma ar hyd y blynyddoedd ond wedi methu. Cyfrifoldeb Pwyllgor Tafarn yr Heliwr fydd cynnal y prosiect a cael hyd i grantiau ond eu bod yn diweddaru CTN yn rheolaidd.
  Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Rhys Llewelyn

**10. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £935.04
- Cyngor Gwynedd – Cyfraniad tuag at Reolaeth Traethau 2020-2021 - £5000.00
- Poppy Appeal - 3 Torch Sul y Cofio - £55.50
- DJ Tiling Services – Gwaith o amgylch Côf Golofn Edern - £2460.00
- Designer Signs – Arwydd Cae Pel Droed Nefyn Unedig - £138.00
- Clwb Peldroed Nefyn – Nawdd – Bwrdd Hysbysebu - £150.00
- Clerks & Councils Direct – Tanysgrifiad - £12.00
- Cliff Hughes – Taliad 7 Contract Llwybrau - £825 + Gwaith ychwanegol - £221.40 = £1046.40
- Ashley Hughes – Offer swyddfa - £15.95
- One Stop Promotions – Flagpole Cae Peldroed Nefyn - £144.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Idris Williams - £450.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Gwilym Meurig Jones - £400.00
- Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol 2018-2019 - £600.00
- Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol 2019-2020 - £300
- Cyngor Gwynedd – Cytundeb Glanhau Llyfrgell Nefyn - £1023.82
- Cyfrif Bryn Mynach – Designer Signs – Arwyddion Parc y Ddôl - £225.30

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

- Cyfrif Bryn Mynach – Wicksteed – Dice Spinner Play Panel - £441.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Rhys Tudur

**Anfonebau sydd wedi cael eu talu:**

- Cyngor Gwynedd – Rent Rhandiroedd y Ddôl - £100.00
- HMRC – PAYE - £136.74
- Cyfrif Bryn Mynach – Bryn Ferguson – Slabiau Concrit - £1260.00

11. **Taliadau wedi eu derbyn:**
    - Ifan Hughes – Angladd Emyr Williams - £925.00